Cylchlythyr – Mai 2022

## Nodyn gan y brifathrawes

Annwyl Rieni,

Unwaith eto mae'r wythnosau diweddar wedi bod yn brysur tu hwnt. Mae'r plant wedi bod yn gweithio ar eu cyfraniad i Ŵyl Wenyn Llanasa sy'n digwydd ar ddydd Sadwrn 14eg Mai yn Neuadd Bentref Llanasa. Bydd yr Ŵyl yn dechrau am 11yb – 3yp. Mae mynediad am ddim a mae croeso i bawb.
Erbyn hyn ddylech wedi derbyn proffil un dudalen eich plentyn a chael y cyfle i wneud apwyntiad i'w drafod os bu angen gydag athrawes eich plentyn. Cysylltwch â'r ysgol os hoffech ei drafod.
Diolch i'r Awdurdod Lleol am weithio gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i ddatblygu podlediad i'n gwefan er mwyn helpu dysgu Cymraeg. Edrychwn ymlaen at weld eu cyfraniad yn fuan.
Byddem yn ail wneud gwefan yr ysgol ac yn gofyn am eich syniadau, neu os allwch helpu yn unrhyw ffordd cysylltwch â'r swyddfa.
Mae gennym lawer o ddigwyddiadau cyffrous i fwynhau dros weddill y tymor.
Diolch am eich cefnogaeth barhaus.
Dymuniadau gorau a chadwch yn ddiogel
Mrs. Bethan Jones

## Diwrnod Ysgol – Nodyn i'ch atgoffa

Mae buarth yr ysgol heb oruchwyliaeth nes i'r ysgol ddechrau am 8.45 y bore. Dyma pryd fydd aelod o staff yno i ofalu am blant wrth iddynt gyrraedd. Ni ddylai plant ddod ar yr iard nes bod aelod o staff yno i sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae Clwb Brecwast ar gael o 8am bob dydd. Anfonir holiaduron wythnosol i'ch galluogi i gadw lle i'ch plentyn.

# Ysgol Gymraeg Mornant Picton

**Mornant: Calon y Gymuned**
**Dwy iaith – dwy waith y dewis a'r cyfle.**

## Dyddiadur

**27/05/22** – Dathliadau Jiwbilî'r Frenhines

**27/05/22** – Ysgol yn cau am hanner tymor

**06/06/22 –** Gŵyl y Banc i'r Jiwbilî- dim ysgol

**07/06/22** – Ysgol yn agor

**07/06/22** - Gŵyl Criced Bl 5 a 6.

**22/06/22** – Dathliad yn Greenfield Valley Heritage Park i blant CA2.

**28/06/22** – Trip bl 4,5,6 i Erddig i drafod Siarter Hawliau - Plant Gogledd Cymru

**24/06/22 –** Mabolgampau a phicnic

**06/07/22** – Trip i Sw Bae Colwyn i blant Cyfnod Sylfaen.

**07/07/22** – Trip i Eisteddfod Llangollen – CA 2

## Gwybodaeth Staffio – Newyddion trist i Mornant.

Bydd Anti Sara yn ein gadael nes ymlaen y tymor yma. Llongyfarchiadau iddi ar ei swydd newydd yn Ysgol Henllan a dymunwn bob hapusrwydd a llwyddiant iddi. Mae hi wedi gwneud cyfraniad enfawr i ni ym Mornant ac rydym yn ddiolchgar iawn am ei gwaith caled a'i chefnogaeth dros nifer fawr o flynyddoedd. Bydd pawb yn ei cholli'n fawr iawn. Wrth gwrs, bydd hi'n parhau i fod yn rhan o deulu estynedig Mornant a bydd croeso mawr iddi yma bob tro.
Os hoffech gyfrannu at anrheg gadael i Anti Sara, os gwelwch yn dda anfonwch eich cyfraniadau mewn amlen wedi ei nodi ' FAO Mrs. Bethan Jones (Anti Sara).
Fe fydd hysbyseb am swydd ysgrifennydd/ gweinyddwr yn cael ei hysbysebu ar wefan y sir, 'indeed' ac 'e-teach' Os oes diddordeb gennych cysylltwch a fi am fwy o wybodaeth.

**Newyddion Da** – dwy athrawes newydd i Mornant – llongyfarchiadau i'r ddwy.
Mae Miss Gweno Wilson-Jones wedi'i phenodi i addysgu'r Cyfnod Sylfaen o fis Medi 2022 yn ystod cyfnod mamolaeth Miss Bradley. Mae hi wedi bod yma fel athrawes dan hyfforddiant ac yn adnabod yr ysgol a'r plant yn dda. Yn ogystal â dysgu'r Cyfnod Sylfaen bydd Miss Wilson-Jones yn parhau i ddysgu Ffrangeg i blant ar draws yr ysgol.
Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Sophie Jones ar ei phenodiad yn athrawes yn y Cyfnod Sylfaen - boreau yn unig. Mae Mrs Jones wedi bod gyda ni eleni hefyd ac felly yn adnabod y plant yn dda. Bydd hi'n dysgu clwb garddio'r tymor nesaf hefyd.
Croeso cynnes iawn i'n tîm hapus.
Byddwn yn eich gwahodd yn ffurfiol i'r ysgol i gwrdd â'r athrawon newydd ar ôl hanner tymor.

## Siarter Hawliau Plant i Ogledd Cymru – 28ain Mehefin

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod plant blwyddyn 4, 5, 6 wedi'i gwahodd i Erddig, Wrecsam i gymryd rhan yn y gwaith o lunio Siarter Hawliau i blant Gogledd Cymru. Bydd y plant sy'n mynychu'r digwyddiad yn cael aelodaeth deuluol flynyddol i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol fel diolch am gymryd rhan.

Mwy o fanylion i ddilyn.

### Diolch yn fawr iawn gan Mrs. Gunther

Mae Mrs. Gunther wedi gofyn i ni ddiolch yn fawr iawn chi am eich caredigrwydd a'ch cyfraniad i'w hanrheg gadael. Prynodd mwclis gyda'r arian i'w hatgoffa o'i hamser gyda ni yn Ysgol Mornant. Diolch o'r galon i bawb.



## Cyfathrebu a'r Ysgol

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gweithio'n agos gyda'n rhieni a'n teuluoedd rhyfeddol er budd ein plant. Cofiwch, os oes gennych unrhyw bryderon, rhowch wybod i ni dros y ffôn, e-bost i'r swyddfa neu Seesaw.

Twitter @YsgolMornant

E-bost – office@mornant.flintshire.sch.uk

## Prydau Ysgol Am Ddim

Os yw'ch amgylchiadau wedi newid a'ch bod yn credu bod gennych hawl bellach i brydau Ysgol Am Ddim, ffoniwch yr ysgol i gael arweiniad ychwanegol

## Cinio a Byrbrydau Ysgol

Mae prisiau cinio ysgol bellach yn £2.50 y dydd, sef £12.50 yr wythnos i bob plentyn.

**Byrbrydau – Cyfnod Sylfaen** – Nodyn i'ch atgoffa i dalu byrbrydau yn wythnosol neu'n dymhorol. Mae byrbrydau yn 25c y dydd - £1.25 yr wythnos. Bydd talu'n rheolaidd yn helpu i brynu'r byrbrydau.

## Diweddariad i ganllawiau Llywodraeth Cymru

Wrth i ni drosglwyddo o bandemig i endemig, mae'r system lefel rhybudd yn dal i ganiatáu mesurau ac ymyriadau i fynd i'r afael â risgiau penodol.Y ffordd fwyaf effeithiol o atal yn ein hysgolion yw atal heintiau rhag dod i mewn i'r ysgol

Er gwaethaf llacio cyfyngiadau COVID, mae niferoedd yn parhau i fod yn uchel ymhlith cymunedau lleol, disgyblion a staff. Byddwn yn parhau i fod yn ofalus yn Ysgol Mornant ac yn gofyn yn barchus i chi barhau i hysbysu'r ysgol o unrhyw achosion positif o COVID a bod plant sâl yn cael eu cadw gartref er mwyn amddiffyn y gymuned yn gyffredinol ac i sicrhau y gallwn barhau i gadw'r ysgol i weithredu fel arfer.

Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r holl staff am eu parodrwydd i addasu a gwneud cymaint mwy nag sy'n ofynnol er mwyn cadw'r ysgol i redeg mor esmwyth â phosibl. Hefyd i chi ein teuluoedd am eich gonestrwydd a'ch cefnogaeth trwy gydol y pandemig a'ch parodrwydd i roi iechyd a diogelwch y gymuned gyfan yn gyntaf. Diolch.